Gweithio Gyda'n Gilydd

Er mwyn Helpu i Wella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

ADOLYGU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

GWYBODAETH AM GYDADOLYGIADAU
AR GYFER
PARTNERIAID A RHANDDEILIAID

Mae'r daflen ar gael ar ffurfiau eraill hefyd a gellir gweld copi ohoni ar y wefan ar gyfer cydadolygiadau

Beth yw pwrpas cydadolygiadau?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y ddau awdurdod lleol ar hugain yng Nghymru gyfrifoldebau sylweddol o ran

- cynllunio gwasanaethau cymdeithasol;
- gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan awdurdodau lleol felly ran allweddol i'w chwarae yn diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed yn y gymuned ac yn diwallu eu hanghenion o safbwynt gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hyn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu, pobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn helpu'r rheiny sy'n ymgymryd â'r rôl o ofalu am eraill, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Pwrpas cydadolygiadau yw:

- rhoi gwybod i'r cyhoedd pa mor dda y mae'r bobl yn cael eu gwasanaethu gan eu gwasanaethau cymdeithasol lleol
- helpu'r gwasanaethau hyn i wella
- helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Beth yw cydadolygiad?

Cydadolygiad yw archwiliad a gynhelir o holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Fe'i cynhelir bob pum mlynedd.

Cynhelir yr adolygiad gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a Chomisiwn Archwilio Cymru – dyna'r rheswm y caiff ei alw'n *gydadolygiad.*

Ar ôl dadansoddi amrywiaeth mawr o ddeunydd am yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau a ddarpara, bydd tîm o ddau neu dri adolygydd yn treulio oddeutu mis yn yr ardal yn archwilio'r gwasanaethau. Pobl sydd â phrofiad eang o wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru yw'r adolygwyr. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys aseswr lleyg – aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn gwasanaethau cymdeithasol.

O ganlyniad i bob adolygiad cyhoeddir adroddiad a fydd yn amlinellu'r casgliadau cyffredinol ynghylch y canlynol:

- pa mor dda y mae'r bobl leol yn cael eu gwasanaethu
- i ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella ar ei berfformiad.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth allweddol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad ac yn nodi cryfderau ac arferion da yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Y nod fydd cynnig trosolwg o wasanaethau cymdeithasol fel corff ond peidio â gwneud gwerthusiad manwl o bob

agwedd ar y gwaith. Bydd yr adolygiad a'r adroddiad yn nodi materion allweddol ac yn cynnal archwiliadau manwl ac yn gwneud sylwadau manwl yn eu cylch.

Mewn ymateb i'r adroddiad, bydd yr awdurdod lleol yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn amlinellu sut y bydd yn cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen. Rhaid i AGCC a Chomisiwn Archwilio Cymru gytuno ar gynnwys y cynllun gweithredu hwn. Mae yna raglen y cytunwyd arni er mwyn monitro sut y caiff y cynllun ei roi ar waith.

Sut mae cynnal cydadolygiad?

Defnyddir nifer o wahanol ddulliau i farnu pa mor dda y mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau cymdeithasol a pha mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi'i drefnu ei hun i gynnal a gwella gwasanaethau. Yn eu plith defnyddir:

- cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- cyfweliadau gyda phobl sy'n gyfrifol am drefnu neu ddarparu gwasanaethau
- arolygon ar ffurf holiadur ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol
- dadansoddiad o ffeiliau achos
- cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr nifer o wahanol gyrff a grwpiau
- ymweliadau â safleoedd lle darperir gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym am gael darlun cywir o'r sefyllfa gan weld ym mha feysydd y mae'r gwasanaethau yn gweithio'n dda, nid y meysydd hynny y mae angen eu gwella yn unig.

Pa bwerau sydd gennym?

Yn ôl y gyfraith, gall adolygwyr:

- fynd i mewn i rai adeiladau (megis swyddfeydd y Cyngor, cartrefi plant, cartrefi gofal ar gyfer yr henoed) a'u harchwilio
- archwilio rhai cofnodion penodol (megis ffeiliau achosion a chofnodion sy'n cael eu cadw mewn cartrefi)
- gofyn am wybodaeth ac esboniad gan yr awdurdod lleol.

Sut mae cynnwys partneriaid eraill yn y broses?

Yn wreiddiol, roedd yr awdurdodau lleol yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn uniongyrchol. Roeddent yn gyfrifol am drefnu, rheoli a staffio canolfannau dydd, gwasanaethau gofal cartref, gwasanaethau preswyl a gwasanaethau eraill. Bellach, rhoddir pwyslais ar annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (megis y GIG) wrth gynllunio, trefnu a darparu gofal cymdeithasol yn eu hardal. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu o hyd gan wasanaethau mewnol ond gwelir y gwasanaethau cymdeithasol, fwyfwy, yn prynu gwasanaethau megis gofal cartref a

gofal preswyl gan nifer o ddarparwyr yn y sectorau gwirfoddol a phreifat.

Mae gwasanaethau'n cael eu darparu fwyfwy drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae trefniadau newydd yn dod i'r amlwg hefyd, o ran trefniadaeth, yn rhan o gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Mae ardaloedd cydffiniol ar gyfer byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn gyfle da i hyrwyddo gwaith partneriaeth wrth gynllunio, comisiynu a darparu holl ystod y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae pwysigrwydd annog asiantaethau i weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n cynnig cymorth i deuluoedd o ansawdd da ac er mwyn amddiffyn plant yn nodwedd amlwg ar wasanaethau plant. Mae rhaglenni megis Cefnogi Pobl wedi annog partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau cyfan a nifer o ddarparwyr gwasanaethau i gynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau fyw yn annibynnol. Yn yr un modd, mae angen i'r bobl hynny sydd ag anableddau elwa ar y cyfleoedd cynyddol sydd i sicrhau cyflogaeth drwy'r partneriaethau adfywio llwyddiannus.

Golyga hyn fod gan bartneriaid a rhanddeiliaid eraill ran hanfodol i'w chwarae yn rhoi i'r adolygwyr wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei newid. Gallwch fod yn rhan o'r broses hon mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Mynediad agored

Bydd yr adolygwyr yn annog pawb sydd â diddordeb mewn gwasanaethau cymdeithasol i roi gwybodaeth ac i roi eu safbwyntiau yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy gysylltu â'r wefan. Gofynnir i'r awdurdod lleol ddarparu cyfeiriad e-bost diogel i'r adolygwyr tra byddant ar y safle neu gallwch ddefnyddio blwch postio AGCC.

Arolygon

Yn gynnar iawn yn ystod yr adolygiad, bydd holiaduron yn cael eu hanfon i groestoriad cynrychiadol o'r asiantaethau a'r mudiadau sy'n bartneriaid. Mae'r arolwg yn gyfle i chi roi eich safbwynt chi am ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol a'r modd y mae'r awdurdod lleol yn rheoli'r agenda gofal cymdeithasol. Os nad ydych wedi eich cynnwys yn yr arolwg, mae croeso i chi ddefnyddio'r holiadur a defnyddio'r sianeli mynediad agored.

Ymweliadau

Bydd yr adolygwyr yn ymweld â'r man lle caiff y gwasanaethau eu darparu megis cyfleusterau preswyl neu gyfleusterau gofal dydd. Byddant yn siarad â'r staff, yn holi cwestiynau ond hefyd yn gwirio canfyddiadau ac yn rhoi cyfle i'r staff siarad am faterion sy'n peri pryder iddynt hwy.

Cyfarfod â grwpiau

Mae'r adolygwyr yn treulio llawer o'u hamser yn cyfarfod â gwahanol grwpiau o bobl gan gynnwys cynrychiolwyr adrannau, asiantaethau a mudiadau eraill.

Cyfarfod ag unigolion

Bydd yr adolygwyr yn gofyn am gael cyf-weld rhai rhanddeiliaid yn unigol er mwyn dilyn trywydd materion penodol (megis cynllunio, comisiynu, gwneud trefniadau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau, datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, etc).

Beth y gallwn ni ei ddisgwyl gan ein gilydd?

Gellir disgwyl i'r cydadolygiad fod fwyaf effeithiol os bydd pawb sy'n rhan o'r broses:

- yn cydweithredu o ran y trefniadau a wnaed ar gyfer yr adolygiad
- yn paratoi ar gyfer unrhyw ran a allai fod ganddynt
- yn siarad yn agored am eu gwaith
- yn cymryd cyfrifoldeb am eu cyfraniad at y broses.

Mae gan adolygwyr god ymddygiad sydd ar gael ar y wefan. Gallwch ddisgwyl i ni:

- gario dogfen adnabod swyddogol
- eich trin â chwrteisi a pharch
- cymryd diddordeb yn yr hyn sydd gennych i'w ddweud
- cadw gwybodaeth am unigolion yn gyfrinachol.

Ni fydd y tîm cydadolygu yn nodi ffynhonnell unrhyw sylwadau yn rhan o drafodaethau (oni bai y cytunir ar hyn â'r sawl a fydd yn darparu'r wybodaeth) nac yn yr adroddiad a gyhoeddir.

Problemau, pryderon, cwynion

Os oes gennych bryderon ynghylch y modd y mae'r tîm adolygu yn ymgymryd â'i waith, dylech sôn amdanynt wrth eich rheolwyr a all ddwyn sylw'r prif adolygydd atynt. Os na ellir datrys y problemau, dylid eu cyfeirio at:

Pat Vogt
Dirprwy Brif Arolygydd,
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 5342
Rhif ffacs: 029 2082 3417
E-bost: **pat.vogt@wales.gsi.gov.uk**

Neu

Paul Dimblebee
Uwch bartner
Comisiwn Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Rhif ffôn: 029 2026 2550
Rhif ffacs: 029 2034 4938
E-bost: paul.dimblebee@wao.gov.uk

Ymdrinnir ag unrhyw gwynion yn unol â chod ymddygiad naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Comisiwn Archwilio ar Gwynion. Gallwn anfon copi atoch os gwnewch gais amdano.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych yn ansicr ynghylch rhyw fater neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, holwch yr adolygydd a fydd yn dod i'ch gweld chi.

Ceir mwy o wybodaeth yn yr arweiniad cyffredinol *Arweiniad i Gydadolygiadau yng Nghymru*, sy'n amlinellu'r sail resymegol i'r rhaglen adolygiadau a strwythur y broses adolygu.

Ceir hefyd *Joint Review Handbook* sy'n mynd drwy wahanol gamau'r broses o gynnal cydadolygiad yn gronolegol a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r broses. Mae'n cynnwys templedi, ffurflenni, protocolau, deunyddiau briffio etc.